# Gwneud busnes gyda Phrifysgol Bangor
# Canllaw i Gyflenwyr



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Dy Ddyfodol ar Waith
**Your Future in Action**

# Cynnwys


| Testun | Tud. |
|---|---|
| Gwybodaeth am y canllaw hwn. | 3 |
| Cefndir a Beth rydym yn ei brynu? | 4 |
| Rheolau a Rheoliadau | 5 |
| Llwybrau Caffael | 6 |
| Proses Dendro | 7 |
| Amodau Cyfranogiad | 8 |
| Cyngor ynghylch Cwblhau Tendr | 9 |
| Dogfennau Tendro | 10 |
| Ble i gael gwybod am gyfleoedd tendro? | 11 |
| Tendro Electronig | 12 |
| Pethau i'w gwneud a pheidio i'w hosgoi wrth dendro | 13 |
| Consortia Prynu | 14 |
| Cynaliadwyedd | 15 - 17 |
| Cymorth Pellach | 18 |
| Manylion Cyswllt | 19 |


Mae'r canllaw hwn at ddibenion cyngor a chanllawiau yn unig. Gan fod galw mawr am fusnes y brifysgol, rhaid i gyflenwyr werthfawrogi na fydd y canllaw hwn yn gwarantu y byddant yn llwyddo i ennill cytundeb.

# Gwybodaeth am y canllaw hwn.

Pwrpas y canllaw hwn yw rhoi gwell dealltwriaeth am brosesau caffael a blaenoriaethau strategol y brifysgol i gyflenwyr sydd eisiau darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith i'r brifysgol.

Mae'r brifysgol yn cydnabod ac yn croesawu natur amrywiol y gymuned cyflenwi ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda chyflenwyr i ddarparu'r seilwaith a'r gwasanaeth i gefnogi ein myfyrwyr a staff mewn modd cynaliadwy.

Mae'r canllaw hwn yn:

- Darparu cefndir byr am y brifysgol a swyddogaeth ei gwasanaeth caffael;
- Egluro'r rheolau a'r rheoliadau caffael y mae'n rhaid i'r brifysgol lynu wrthynt;
- Hysbysu cyflenwyr ynghylch sut y gellir eu hysbysu am gyfleoedd tendro;
- Darparu cyngor cyffredinol wrth gwblhau tendrau.



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



# Cefndir

Wedi'i sefydlu yn 19884, mae Prifysgol Bangor Heddiw yn sefydliad ffyniannus, blaengar sy'n cynnig cyfleoedd rhagorol. Mae tua 10,000 o fyrfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol, gyda staff dysgu wedi eu lleoli o fewn deg o ysgolion academaidd.

# Beth rydym yn ei brynu?

Mae Prifysgol Bangor yn prynu ystod eang o waith, gwasanaethau, nwyddau a chyfleustodau, a'r gwariant yn amrywio o brojectau adeiladu ac atgyweirio mawr i anghenion bychan megis papur swyddfa. Yn gyffredinol, mae ein gofynion yn cynnwys:-

- Rheoli cyfleusterau, adeiladau ac ystadau
- Cyflenwadau labordy a meddygol
- Cyflenwadau a gwasanaethau llyfrgell a chyhoeddiadau
- Cyflenwadau cyfrifiadurol
- Teithio a thrafnidiaeth
- Cyflenwadau porthorol, domestig ac arlwyo
- Gwasanaethau proffesiynol
- Offer a chyflenwadau swyddfa.

Background

# Rheolau a Rheoliadau

Mae'r brifysgol yn mynnu bod pob pryniant yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail bywyd cyfan, ac sy'n creu buddion nid yn unig i'r brifysgol, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, gan leihau niwed i'r amgylchedd.

## Rhaid i bob pryniant gael ei wneud yn unol â:

- Gofynion statudol a chyfreithiol, h.y. Deddf Caffael 2023 a'r Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024, lle bo'n briodol.
- Y Datganiad Polisi Caffael Cymru.
- Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Caffael y brifysgol.
- Strategaeth Gaffael y brifysgol.



# Llwybrau caffael

**Defnyddir 5 llwybr caffael o fewn y brifysgol, pob un wedi'i bennu yn ôl gwerth. Mae'r holl ffigurau'n cynnwys TAW.**

| Proses | Gofyniad |
|---|---|
| Proses A – Hyd at £10,000 | Mae'n ofynnol i staff gael un dyfynbris ysgrifenedig yn unig, ond anogir iddynt geisio dau ddyfynbris. |
| Proses B - £10,000 to £29,999 | Rhaid i staff gael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig. |
| Proses C - £30,000 to £49,999 | Rhaid i staff gael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig. Cyhoeddi'r Hysbysiad Manylion Contract ar GwerthwchiGymru ar gyfer unrhyw gontractau a ddyfernir dros £30k. |
| Proses D - £50,000 i Drothwy Deddf Caffael[1] | Proses dendro ffurfiol , a fydd yn cael ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru. |
| Proses E – Trothwy Deddf Caffael[1] ac uwchlaw | Proses dendro ffurfiol yn unol â Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 neu Reoliadau Caffael 2024 (Lloegr), lle bo'n briodol. |

[1]Ar hyn o bryd £207,720 ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ac £5,193,000 ar gyfer gwaith.



# Proses Dendro

Bydd pob contract sydd â gwerth dros £50k yn dilyn proses dendro.

Mae proses dendro yn wahoddiad strwythuredig, ffurfiol i gyflenwyr gyflwyno cais mewn ymateb i hysbyseb am gontract i gyflenwi cynnyrch, gwasanaethau neu waith.

Mae “Proses Caffaeliad a Gwmpesir” yn broses gaffael lle mae cyfanswm gwerth amcangyfrifedig y contract yn fwy na Throthwy’r Deddf Gaffael. Yn yr achosion hyn, bydd caffaeliadau yn ddarostyngedig i’r gofynion deddfwriaethol llawn.

# Amodau Cyfranogiad

Mae Prifysgol Bangor yn defnyddio'r [Holiadur Caffael Penodol Cymru] (WPSQ) i bennu galluoedd technegol a phroffesiynol cyflenwr, ei sefyllfa economaidd ac ariannol, ac a oes unrhyw sail gwahardd yn berthnasol.

Mae'r WPSQ yn cynnwys tair rhan:

Rhan 1 – cadarnhad bod cyflenwr yn gofrestredig ac wedi cyflwyno a rhannu gwybodaeth graidd am y cyflenwr ar y Platfform Digidol Canolog.

Rhan 2 – gwybodaeth ychwanegol am eithriadau, gan gynnwys:-
Rhan 2A – adnabod y person(au) cysylltiedig.
Rhan 2B – cadarnhad o isgontractwyr bwriadedig y cyflenwr.

Rhan 3 – cwestiynau sy'n ymwneud ag amodau cyfranogiad, gan gynnwys:
Rhan 3A – cwestiynau safonol i sicrhau bod gan gyflenwr y gallu cyfreithiol ac ariannol, a'r gallu technegol i gyflawni'r contract.
Rhan 3B – cwestiynau penodol i'r llywodraeth ganolog.



# Cyngor ynghylch Cwblhau Tendr.

**Capasiti Cyfreithiol:** efallai y gofynnir i gyflenwyr posibl gadarnhau eu bod yn gallu bodloni cyfreithiau diogelu data'r Deyrnas Unedig a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn ogystal â chadarnhau eu bod yn bodloni gofynion Cynllun Ardystio Hanfodion Seiber.

**Gwybodaeth Ariannol:** Bydd y brifysgol yn asesu sefyllfa ariannol cyflenwyr sy'n gwneud cynnig am gontractau. Mewn contractau risg uchel lle gallai diffyg perfformiad arwain at golled ariannol sylweddol neu lle bo perfformiad gweithredol yn hanfodol, efallai y gofynnir i gyflenwyr gyflwyno Warant Rhiant-Gwmni neu Bond Perfformiad.

**Yswiriant:** Gall y lefelau a mathau o yswiriant amrywio yn dibynnu ar ofyniad y brifysgol, a bydd y manylion hyn yn y dogfennau tendro. Bydd angen i gyflenwyr ddangos tystiolaeth eu bod yn meddu ar y lefelau yswiriant a nodwyd cyn y bydd unrhyw gontract yn cael ei ddyfarnu.

**Sicrhau Ansawdd:** O ran contractau penodol, gall fod yn ofynnol i gyflenwyr ddangos bod ganddynt ddulliau sicrhau ansawdd ac achrediadau yn eu lle. Gofynnir i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o'r ardystiad.

**Profiad:** Lle bo angen, gofynnir i gyflenwyr ddangos bod ganddynt y profiad angenrheidiol i gyflenwi nwyddau neu ddarparu gwasanaethau.

**Cyfeiriadau:** Efallai y gofynnir i gyflenwyr ddarparu manylion safle cyfeirio, y gall y brifysgol gysylltu ag ef i asesu a oes gan gwmni'r lefel ofynnol o sgiliau a galluoedd i ddiwallu anghenion y brifysgol.

**Iechyd a Diogelwch:** Mae'n rhaid i'r brifysgol sicrhau bod y cyflenwyr a benodir yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Yn dibynnu ar y contract, efallai y bydd angen i gyflenwyr ateb cwestiynau ychwanegol mewn perthynas â gweithio ar eiddo'r brifysgol.

**Cynaliadwyedd:** Mae cynaliadwyedd yn un o amcanion strategol allweddol y brifysgol ac felly mae amcanion cynaliadwyedd wedi'u cynnwys fel rhywbeth safonol yn y broses gaffael. Mae cynaliadwyedd yn cwmpasu materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ac anogir cyflenwyr i gynorthwyo'r brifysgol i wella perfformiad yn y meysydd hyn lle bo'n bosibl.

**Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol a Chaethwasiaeth Fodern:** Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i sicrhau nad oes achosion o gaethwasiaeth yn ein cadwyn gyflenwi. Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, bydd y brifysgol yn cyhoeddi datganiad blynyddol yn disgrifio'r camau a gymerwyd i reoli a lleihau'r risg o gaethwasiaeth yn y gadwyn gyflenwi. Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr hefyd gydymffurfio â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

**Gwerth Cymdeithasol:** Mae gwerth cymdeithasol yn cyfeirio at y manteision ehangach y mae cyflenwr yn eu darparu i gymuned y tu hwnt i'r cynnyrch neu'r gwasanaeth craidd y maent wedi'u contraction i'w ddarparu. Mae gwerth cymdeithasol yn cynyddu effaith gwariant cyhoeddus i'r eithaf drwy greu swyddi lleol, gwelliannau amgylcheddol neu gefnogi grwpiau difreintiedig.

**Lleihau Carbon:** O ran contractau gwerth uchel dros £5m, bydd disgwyl i gyflenwyr greu cynllun lleihau carbon i ddangos ymrwymiad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rhaid i'r cynllun lleihau carbon gynnwys cynllun manwl sy'n amlinellu'r strategaethau a'r mesurau i reoli a lleihau effaith amgylcheddol.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Disgwylir i gyflenwyr ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan sicrhau nad yw eu gwasanaethau na'u cynhyrchion yn gwahaniaethu.

**Cyflog Byw:** Anogir cyflenwyr a'n darparwyr gwasanaeth i fabwysiadu'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Moesegol ac i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr sy'n gweithio'n rheolaidd yn ein hadeiladau.




# Dogfennau Tendro

Mae dogfennau tendro’r brifysgol yn ffordd o asesu gallu cyflenwr i ddarparu nwyddau/gwasanaethau/ gwaith yn ogystal â phennu’r cais mwyaf economaidd.

Yn dilyn yr amodau cyfranogi, bydd y brifysgol yn gofyn cwestiynau pwysol sy’n gysylltiedig â sut rydych yn bwriadu cyflawni’r contract, ynghyd â’r gost gyflawni arfaethedig.

Bydd eich ymateb yn cael ei sgorio yn unol â’r cyfarwyddiadau/gwybodaeth a ddarperir yn y Gwahoddiad i Dendro.



# Ble i gael gwybod am gyfleodd tendro?

Gwerthwch i Gymru yw gwefan gaffael genedlaethol Cymru a lle mae Prifysgol Bangor yn hysbysebu pob cyfle contract dros £50,000. Mae GwerthwchiGymru yn cysylltu â'r Platfform Digidol Canolog lle mae'n rhaid cyhoeddi cyfleoedd contract sydd â gwerth uwchlaw trothwy Deddf Caffael 2023.

Sell2Wales

## Platfform Digidol Canolog

Mae'r Platfform Digidol Canolog yn wefan arall lle gall cyflenwyr gael gwybodaeth am gyfleoedd tendro. Bydd angen i chi gofrestru ar y Platfform Digidol Canolog cyn cynnig am unrhyw gyfleoedd tendro yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yma: Find a Tender

GOV.UK Find a Tender

Search Sign in

# Tendro Electronig

eDendroCymru (Jaggaer) yw'r system y mae Prifysgol Bangor yn ei defnyddio i gynnal prosesau tendro electronig.

eDendroCymru:

- Yn rhoi mynediad hawdd i gyflenwyr at ddogfennau tendr
- Yn darparu ffordd ddiogel o ddychwelyd tendrau
- Yn darparu proses dryloyw i godi ymholiadau yn ystod y broses dendro.
- Yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio.






# Pethau i’w gwneud a pheidio i’w hosgoi wrth dendro.

**Gwnewch yn siŵr bod eich manylion yn gyfredol ar y Platfform Digidol Canolog.** Byddwch yn gallu mewnbynnu a rhannu’r wybodaeth rydych yn ei rhannu’n aml i’ch helpu i arbed amser wrth dendro. Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw.

**Darllenwch y pecyn tendr yn ofalus:** Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a deall y pecyn tendr. Bydd hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth ynghylch y gwasanaethau sy’n cael eu tendro, y telerau ac amodau a chyfarwyddyd clir ar sut y dylech gyflwyno’ch cynigion.

**Ceisiwch eglurhad** os ydych yn ansicr o unrhyw beth. Rhaid cyflwyno cwestiynau eglurhad drwy eDendroCymru.

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y cwestiynau a’r meini prawf marcio** fel eich bod yn deall pa gwestiynau sydd angen yr ymdrech fwyaf.

**Peidiwch ag oedi tan y funud olaf i gyflwyno tendr,** ni dderbynnir cyflwyniadau hwyr.

**Peidiwch â thybio ein bod eisoes yn eich adnabod chi;** caiff gwerthusiad tendr ei seilio ar yr hyn sydd wedi’i ysgrifennu yn eich cyflwyniad yn unig.

# Consortia Prynu

Mae'r brifysgol yn defnyddio nifer o gontractau cydweithredol a roddir gan gonsortia prynu. Mae llawer o'r contractau cydweithredol hyn (neu gytundebau fframwaith/marchnadoedd dynamig) yn cael eu gosod mewn contractau llai ac felly dylid annog cyflenwr bach i roi cynnig arnynt o hyd.

## Dyma'r prif gonsortia a ddefnyddir gan y brifysgol:

- Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion Gogledd Orllewin Lloegr (NWUPC)
- Tim Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru
- Gwasanaethau Masnachol y Goron
- Sefydliad Arlwyo'r Prifysgolion (TUCO)

# Mae cynaliadwyedd wrth wraidd Prifysgol Bangor.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i fod yn sefydliad cynaliadwy ym mhob agwedd ar ei gweithrediadau. Drwyn ein Strategaeth Cynaliadwyedd, ein Polisi Amgylcheddol a’n System Rheoli Amgylcheddol achredededig ISO 14001:2025 accredited Environmental Management System, rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus a lleihau ein heffeithiau amgylcheddol negyddol.

---

Mae cynaliadwyedd ym cwmpasu materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ac anogir cyflenwyr i gynorthwyo’r brifysgol i wella perfformiad yn y meysydd hyn lle bo’n bosibl.



# Beth mae cynaliadwyedd yn ei gynnwys?

Mae cynaliadwyedd yn cwmpasu cylchred bywyd llawn nwyddau a gwasanaethau. Mae'r brifysgol yn awyddus i ddeall sut mae cynhyrchion yn cael eu cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu.

Caffael cylchol yw ystyried cynnyrch o'r cam dylunio hyd at ei waredu. Y prif flaenoriaethau yw:

- Hirhoedledd cynnyrch
- Adfer cynhyrchion
- Cynaliadwyedd deunyddiau ac Adnoddau
- Uchafu gwerth a chostau cylch bywyd
- Lleihau gwastraff





# Cynaliadwyedd parhad.

Bydd y brifysgol yn:

- Blaenoriaethu cynhyrchion sy'n effeithlon o ran ynni, yn ailgylchadwy, yn fioddiraddadwy neu wedi eu gwneud o ddeunyddiau cynaliadwy.
- Dewis cyflenwyr â gweithrediadau carbon isel, chwiliwch am gynnyrch moesegol neu fodelau busnes cylchol.
- Ystyried costau oes gyfan, gan gynnwys cynnal a chadw, defnydd ynni, a gwaredu.
- Blaenoriaethu cyflenwyr sy'n defnyddio deunyddiau pecynnu sydd wedi cael eu hailgylchu, sy'n ailgylchadwy, bioddiraddadwy neu ddeunyddiau cynaliadwy ardystiedig.

# Buddion Cymunedol a Themâu, Mesurau a Chanlyniadau

Ystyrir buddion cymunedol/gwerth cymdeithasol fel y budd ehangach a gaiff cymuned leol yn sgil darparu contractau cyhoeddus. Mae'n ymwneud â gwell llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n deillio o gontractau sector cyhoeddus ar ben darparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol yn uniongyrchol heb unrhyw gost ychwanegol.

Yn achos pob caffaeliad dros £2m, bydd Prifysgol Bangor yn ystyried cynnwys cymalau budd cymunedol.

Mae Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru yn fframwaith syn helpu sefydliadau i fesur a chynyddu'r gwerth cymdeithasol maent yn ei greu. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y themâu a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Porth Gwerth Cymdeithasol



# Cymorth Pellach

Os mai busnes bach neu ganolig sydd gennych chi (yn cyflogi hyd at 250), sydd eisiau gwella ei siawns o ennill contractau sector cyhoeddus a phreifat, mae'n bosib y gall Busnes Cymru – Tendro eich helpu chi.

Gall Busnes Cymru:

- Egluro sut mae system brynu'r sector cyhoeddus yn gweithio;
- Helpu chi i ddeall yn well yr hyn mae prynwyr mawr eisiau gan gyflenwyr;
- Cynnig cymorth a chyngor un i un ar ddatblygu tendrau ar gyfer contractau neu fframweithiau penodol;
- Eich tywys chi drwy'r systemau tendro electronig sy'n cael eu defnyddio gan y sector cyhoeddus yn Gymru.



**Prifysgol Bangor**
**Mehefin 2026**

**Cysylltwch â:**
**procurement@bangor.ac.uk**

**Elusen Gofrestredig 1141565**